

CYFARWYDDID

IR

C Y M R U.

A ysgrifenwyd yn

1655.



Printiedig yn *Llundain*,
1657.





CYFARWYDDID IR CYMRU.

I. **Y** Cymru hawddgar : Mae llawer yn achwyn fod cimaint o opiniwnau a chroes ffyrdd i droi oddiar lwybrau'r bywyd i gromlechyd an-gau, nad oes mo rai yn meiddio tramwy ymlaen. Ond ith gyfarwyddo di, wele Dyma air o banes yr Oen, a banes yr enaid, a banes yr Oen ar enaid yngbyd. fe a ddangosir i ti yn gyntaf, o bale yr wytî yn dyfod, i ba le yr wytî yn myned, Pa fodd y daeth y fath ymrysson

G

ynot

ynot ti ag ymysg dynion, a phabryd y rhennir y cwbl yn ddau opiniwn, fel yn ddau feddwl gwreiddiol tragwyddol. Pa ffordd i w llwybr yr Ailenedigaeth yngchrist. Mi ymrefsyinat ath di er mwyn i ti ymrefsyinu ath di dy hunan, canys os adnabyddi dy hunan, di a gydnabyddi DDuw at Oen hefyd ynghyd gidath dñ.

2. Mae genit ti etifeddiæth o dair rhan, sef vsbryd ag enaid a chorff. Dy vsbryd di a ddaeth or Tad fel i hewm or meddwl fel gair or galon, fel gwreichionen or eirias, fel ffynnon or mor, neu fel anadl or genau, yr hwn a chwythwyd i gorff dyn allan o fonwes Duw, ag sydd i ddychwelyd eil-waith i w fonwes ef, yr hwnt sydd yn presswyllo mewn plas a elwir tragwyddoldeb. Dy enaid hefyd i w'rys bryd naturiol a grewyd or elementau anwaledig, yn ôl naturiaeth y telpyn pridd, yr hwn y

mae fo yn lleteua ynddo; er hyn y
 mae'r enaid yma yn ffurfiwr i'r
 corph, ag yn i'w agweddu yn ol ei
 feddwl, i aros yn ei hafod-ty gorff-
 orol dros amser. Ag etto cwlwm i w
 'r enaid yma rhwng yr ysbryd ar
 corph, a phan wisger ef allan drwy
 glefydau, neu i dorri ffordd arall,
 mae'r ysbryd yn ymollwng oddi-
 wrth y corph i inewn, fel gwr yn
 myned oddicartref. Canys ysbryd
 y bywydau (medd Moesen) a
 anadlwyd i ddyn, ag nid yn ysbryd
 bywyd yn vniig, fel y darllenwch
 chwi. Mae mewndyn y naill beth
 or tû fewn i'r llall, fel or yn pren y
 inaen bywyd sŵg, corph calon y
 pren, a'i risglia. Am hynny meddaf
 nid i w'r corph ond rhisglia y pren,
 neu grustyn dyn, neu ddeilien i
 gwympo i'r ddayar dan dracd. Ag
 fel y mae'r ddayar megis pwll yn
 agoryd ei cheg i lyngcu yr holl
 gyrrh (y glandeg fel y gwrthyn)
 selly y mae vffern yn ymrythu am

yr holl encidiau cnawdol. Ag yma
y mae dirgelwch.

3. Fe ysgrifened hyn yn helac-
thach attat, ped fai gennad oddi-
fewn, a th glust dithau wedi i chlo-
ddio yn ddyfnach. A ddarllenno
dealled, A ddeallo dilyned yr hyn
a wyr ynddo ei hun, ag fe gaiff
oleuni 'r haul yn lle goleuni 'r lle-
uad ar ser yn y galon. Ond nag
anghofied hyn, fod ysbryd ynddo
yr hwn oedd ymmonwes Duw eri-
oed, ag a bery cyd ag y parhatho
Duwa dim, a hynny iw byth. Pa le
yr oeddit ti (medd Duw; pan syl-
faen i y byd mawr yma? Atteb
o: gwr o ddyfsg wyt. Feddysodd
yr ailenedig atteb. Yroeddwn i yn
dy lwynau Arglwydd, fel plenty'n
neu gangen yn y gwreiddyn.
Canys Duw iw tâd yr ysbrydoedd,
ag Arglwydd Dduw ysbryd pob
cnawd.

Er bod dyn yn gwybod i fod ef
yn bechadur filoedd cyn i ddy-
fod

fod ir byd, Ni wyr ym mha fangre
 yr oedd ychydig flybyddoedd cyn
 i eni. Nid iw naturiaeth ond cys-
 god y naturiaethwr. Ag ymbell a
 genfydd hyn drwy'r goleuni trag-
 wyddol, pa todd y lluniwyd ef
 ynghroth ei fam a pha ham: Oble-
 gied mae ysbryd Duw yn chwilio
 dyfnion bethau Duw a dyn, ag os-
 hwn a ddysg, fe all dyn drwyddo
 weled mwy nag a ganfyddai cer-
 ddwr Israel yr hwn (yn ei amser)
 a ddywedodd. & mor rhyfedd
 ag mor ofnadwy im gwnaed? Mae
 pob peth o Dduw, ag fel y daeth,
 felly y dychwel medd Salomon,
 naill ai ir llied ai ir cariad tragwy-
 ddol.

4 Ond (meddi di) A ddaeth neb
 allan o hono ef ya ei ddigofaint.
 Yr ateb yw. Er dysod y rhan
 fwyaf allan os natur dragwyddol
 mewn cynhyrfaid tâllyd, etto ni
 ddaesh neb allan o Dduw mewn
 digter. Casys cariad iw Duw ag
 nid

nid oes dywyllwch ynddo. Os ystyriol wyt ag ysbrydol, deall y gwahaniaeth. Ond ni ddichon ysbryd dyn ddeall mo bethau Duw, ag nes iddo gael yspryd Duw, ni fedr et ganfod o ba le i daeth.

5. O enaid. I ba le yr wyt ti yn myned? Ni wyddost di mo hyn chwai, h, mwy na gwr ar ei daith, pa ley lleteua, ni pha gwmnhiai cytersydd. Nhw ddywedant yngymru *fe myr pan el ni myr pan dael.* Ond am yr enaid, ni wel o ba le i daw nag i ba le ir â. Hynod iw hyn, mai ir bedd ar ddayar yt â'r cnawd, ar anidl cnawdol ir chwalfa, y corph a brofir yn ffwrn y bedd, yr enaid a ymlyn wrth yr ysbryd (yr hwn iw calon y pren) ar ysbryd a erys byth yn y naturiaeth a chweny-chodd ef fwyaf. Y corph mîd iw ond megis erfyn yn llaw yr enaid ffurfaennol. Yr enaid nid iw ond anadliad yr ysbryd dirgelaf. Yr ysbryd iw'r droell oddifewn syn troi

(;)

troi 'r enaid ar corph llei mynno,
am a allo. Y corpws iw 'r brethyn
o amgylch dyn, ; r enaid sydd me-
gis y corph yr hwn a wisgwyd a
phridd, ond yr ysbryd iw canol y
creadur.

6. Mae dyn ar i redeg yn y
bywyd yma, ag mae ai cyfeswyd
ag a ofyn iddo. I ba le y mae yr
enaid ar ysbryd yn myned? Pa
elw sydd i ddyn ddawnsio a mynd
i lawr i bwll diwaelod mewn dif-
frwrch amsferol? Oni chosba Duw
di am i ti ledratta dy galon oddi-
wrtho? A wyt ti yn meddwl mai
byrr iw Byth, ag mai hir iw ein i oes
dyn dayarol? Ai gwell genit ti
ddioddef taranau digofaint cyfi-
awnder byth, gida gwawd y cy-
threuliaid (am it fyw mewn pe-
chod fel nhwythau) na dioddef
gwatwar dynion dros synud awr
yma? Onid Duw iw 'r Câr gorau,
ar gelyn gwaethaf? Pam yr wyti
yn porthi dy gnawd i newynu dy
enaid

enaid? ag yn llochi dy enaid, neu
 dy reswm cnawdol i ddifetha dy
 ysbryd? Mae gwybedyn ar dy
 ffordd di yn dy rwystro i ddaioni,
 ond ni all Angel Duw moch
 rwystro ir pechod. A wnaeth Christ
 y cyfan drosot ti? Ag oni chlywi
 di ar dy galon wneuthur dim
 drosto fo? A ddioddefodd vniq
 fab Duw golli gwaed ei galon (yr
 yr hon yr oedd y bywyd ei hunam)
 ar cwbl drosot ti? Ag oni ddio-
 ddefi di ddim er ei fwyn ef, neu
 (or lleiaf) er mwyn dy enaid dy
 hun? A ollyngi di 'r Aur ysbrydol
 oth law i lenwi dy law ath feddwl
 yn llawn ar bryntai? A golli di
 ysbryd y bywyd tragwyddol i
 gael y dim amserol? Beth uneddi
 di sydd lai na Dim? Yr holl fyd
 amserol sydd lai na Dim (medd
 Esay) yngolwg Duw. Ag a ofni
 di (neu a ofeli di) am y peth sydd
 lai na Dim? A hoffi di 'r byd ai
 chwant yr hwn wedi i roddi oll

yn ghyd fydd lai na dim medd yr
 yscythurau sandtaidd ? (canys y
 byd ai chwant fydd yn myned
 heibio,a chwant y byd iw ysbryd
 difyr y naturiaeth yn yr hon yr
 wyt i yn byw) Pam nad wyt i yn
 edrych mewn pryd beth a ddaw o
 honot ti pan losgir(pan ddiddimir)
 y byd? Eistedd di ychydig ag aros
 mewn dealdwriaeth a meddwl am
 dy ddiwedd cyn iddo ddyfod ;
 Ai gwell genit ti gysgu dros fynyd
 awr, ag yno deffro yn y tân tragw-
 yddol na deffro yr awron,a myned
 allan oth ewyllys dy Hunan i ochel
 y tân anifoddadwy? Pam yr wyt i
 yn eistedd ynot dy Hunan gartref
 (oddicartref oddiwrth Dduw) yn-
 ghornel simne dywyll dy feddwl
 dy Hunan, heb ymofyn am y Duw
 byw nag ynot dy hunan nag mewn
 eraill chwaith? Pam yr wyt i etto
 yn ymborthi ar y cibau gida'r
 môch, a digon o fara yn nhŷ dy
 Dad yn aros am danat ? Pam yr

wyt i yn rhedeg gidag anifeiliaid
 gwyltton, sef dynion drygionus, ag
 yn troi heibio, drwy wrthod
 cwmnhi angelion sanctaidd Duw?
Pam yr wyt i yn yndreiglo yn
 nhommen y byd ar cnawd, ag yn
 diflasu y Manna ar bywyd a bery
 byth? Pam yr wyt i yn ynsydu ar
 ol pibellau y gwagfoneddigion a
 rhesymau cythreuliaid, ag yn di-
 ystyru llais mawr Duw, yr hwn
 ath farna pan na alio neb ddadleu
 drosot? Ai Lucifer(gwalch y byd
 hwn) sydd yn dy ddal di fyth ag
 etto yn ei ewinedd? A ydiw
 cadwyn gadarn dy ewyllys di dy
 hun yn rhwymod y feddwl? A oes
 yn pysygwr yn Gilead, nag yn
 gydwybod yn dy fonwes? A oes
 neb a fedr ddangos y ffordd i ti?
 neu yn hytrach, a wyt i yn yrofyn
 am dani? Beth wyt i well er dy
 lyfr gwasanaeth? ath di fyth yn
 caru gwasanaeth y pechod. Mae
 ffordd well, ped fai t i yn i hymo-
 fyn

fyn i ti i weled iechydwriad yn y
tragwyddoldeb. Pa le y byddi di
y inhen mil o flynyddoedd? Gadel
ar Dduw (meddi di) ond mae
Duw yn gadel arnat tithau, heb
ewyllysio marwolaeth y pechadur?
Dyma ganwyll i ti (ð enaid anwyl)
ith gysuro ag ith gyfarwyddo.

7. Ond di a ofynni i mi (wedi
hyn i gid) ni wn i pa ffordd a gy-
meraf. Mae cimaint o opiniwnau
yn y byd ag sydd o wallt ar fy
mhen i: Bei gwyddwn i y ffordd
orau or cwbl, mi ai dilynwn hyd y
diwedd drwy help Christ. Ond
mae'r naill wr duwiol dyscedig yn
erbyn y llall, ag mae nhwy i gid
yn byw yn dda. Ond ith ateb
di ð Ddyn. Wele di a wyddost
swy nag yr wyt ti yn i wneuthur,
ag mae mwy o nerth Duw gidath
di i wneuthur nag yr wyt i yn i
arferu, Nid oes gan ddyn *o homo ei
bunus* na goleuni na nerth nag
ewyllys i ddaioni, ond mae gan

ddynt addo ei bennau fwy o oleuni
ag o nerth oddiwrth Dduw (yr
hwn sydd yn bywhau pob peth)
nag y mae'r dyn yn i arfer. Arfer
y dalent a roddwyd i ti (hyd yr
eithafodd) ag di gei adnabod y
wir ffirdd nefol frenhinesol, ymylsg
yr holl lwybrau eraill.

8. Os byddi di ffyddlon i Dduw
gan ei groesatu yn llestr dy gyd-
wybod oddifewn, drwy fod yn
gymeradwy genit gadw Duw yn
dy wybodaeth, efe ath arwain di i
adnabod Christ a hanes yr oen ar-
enaid ynghyd. yr oen yma iw go-
leuni dynion, a bywyd y Byd.
Hwn oedd ddifyrrwch y Duw
anfesurol cyn dechreuad y byd.
Hwn oedd y Gair a wnaeth bob
peth yn y dechreuad, Hwn iw'r
golofn ddifesur sydd yn cynnal
pob peth. Hwn a wnaeth pwyd
ynghyflawnder amser yn gnawd
ag yn naturiaeth ddynol. Hwn
a ddioddefodd dros ddyn waeth-
af

af digofaint; Dyma 'r hwn oedd
 vwchlaw pob peth, ag a ddescyn-
 nodd islaw pob peth, fel y galle ef
 escyn eilwaith yn greaduriaidd
 vwchlaw pawb, i fod vwchben pob
 enw, er mwyn iddo lenwi pob peth
 Hwn sydd ymhob dyn fel y mae
 fo yn Air Duw, a chida 'r rhai
 sydd yn i vfyddhau fel brenin, ag
 yn darfstwng ei hewyllys i angau
 'r groes, i fyw yn ewyllys Duw.
 Hwn meddaf a ddywaid. Os oes
 neb a fyn wneuthur ewyllys fy
 nhâd, efe a gaiff wybod am y
 ddysciediaeth ag adnabod pob
 llwybr daionus.

9. Deall hyn hesyd ynglych
 y ddau Adda, y pren cyntaf a
 blannodd Duw ymharadwys,
 ar Ail Adda Christ Jesu, yr hwn a
 blannodd Duw yr ein cnawd ni.
 Yr Adda cyntaf a bechodd
 (ninnau oeddein yn sylweddol
 ynddo ef, ag a bechafom cystal ag
 yntau) am hyny y mae ei natur

front ef yn deilliaw i ni drwy ene-digaeth o oes i oes. Ag ni chyfrifasai Duw byth moi bechod ef i ni, oni bai ein bod ni ynddo ef y pryd hwnnw yn pechu (tel Leui yn *Abraham*) ag yntau ynoin ninnau yn pechu etto. Canys oni bai yn bod ni yn bwyta y ffrwyth gwaharddedig yn Adda, ni buasai ar ein dannedd ni mor dingcod. yr yn modd hefyd y mae i ni ddeall yr Ail Adda a marwolaeth Christ? yr Ail Adda a ddioddefodd, ag yr oedd yr holl rai cad-wedig ynddo ef y pryd hwnnw, ag ir rhain y mae yntau drwy genhediad yr ail enedigaeth yn deilliaw, ag yn danson ei ysbryd glan, set anian Duw. Ag ni chyflawnhcieir neb, ond y rhai ynddo ef a ddiodd-efasont gydag ~~et~~, yn y rhai y mae yntau yn byw i Dduw. Felly dyma'r aiteb i ti enaid truan yr hwn wyt yn ymofyn y ffordd. Yr yn'g ffordd ir net iw'r ailenedi-gaeth

gaeth yn yr Ail Adda. Heb hyn
nid oes wr o ddealldwriaeth ar
wyneb y ddayar. Oni chlywaist
di nad oes yn gwr oddysg dan yr
haul? Nag oes, yn ond Christ, y
gwr sydd yn aros ynghalonnau ei
ffyddloniaid sanctaidd. Oni
wyddost di beth a ddywedodd
Esay. Pe baent ynfydion ar
ffurdd ddieithr ni chyfeiliornant, os
byddant fodlon i Christ ynddynt
iw rheoli.

10. Rhaid iw dangos hefyd Pam
y mae cimaint o ffyrdd yn lle yn
ir nef ymysg plant Adda, a pham
y mae dynion yn ymrafaelio fel
brodyr Joseph wrth geisio mynd
adref at y tad Jacob. Fel hyn y
mae'r peth. Dyn (neu Adda) a
wnaed ar y cyntaf yn ddelw ir
Gwneuthurwr, yr ysbryd ar ei
lun ef, yr enaid ar ei ddelw ef, ar
corph or ddayar. Ond Adda y
gwreiddyn, a ninau oll ynddo ef
(fel canghennau yn ei gwraidd)

a gafodd gwympr a chodwm tostu-rus erchyll, oddiar *Graig yr Oesedd*, i
bwll y dysnderoedd. Ag yn y cwympr
 yma fe a ymrannodd ynddo ei hu-nan, fel y gweli *lestr pridd wrth ei*
gwympr yn mynd yn ddarnau.
 Ynddo ef yr ymagorodd yr ewy-llys ar gydwybod ar gwyniau ar
 rhesymau y naill yn erbyn y Hall.
 Yn ei gorff ef hefyd yr ymddan-gosodd y ddayar ar tân ar dwfr
 ar awyr mewn rhyfel i farwolaeth
 (canys cyn y cwympr roedd yr
 ymryson yn guddiedig) Ag er bod
 y rhain yn ymladd ymhob un o
 blant Adda (sef yngorph pob
 dyn) etto ni all y naill fod heb y
 llall er hynny. Ag dyinma wreiddyn
 clefydau'r corph ag achos angau
 naturiaeth (fel y mae'r ymryson
 arall oddifewn.) Ag fel y mae'r
Môr afreolus wedi gwahanu y
 naill ynys oddiwrth y llall, felly y
 mae'r pechod (a thywysogion yr
 awyr ynddo) wedi didoli dyn
 oddiwrth

eddiwrth vndebed **Duw, wrth rannu**
dyn ynddo ei bun, yn gymnynt nad
 oes dyn yn y ddayar yn medru
 cydtuno ynddo ei hunan, yn ei
 gorff ai gydwybod, ai feddyliau ei
Hunan: Ond mae ei resymau ef yn
 ymrafaelio, ag yn cûroy naill y llall,
 fel y gweli di ganghennau yr un
 pren tra fo y dymheistlarnynt. Am
 hynny Dau sydd yn erbyn tri, a thri
 yn erbyn dau yn yr un enaid, cystal
 ag yn yr un teulu.

11. Nid oedd ond un Jaith ar y
 cyntaf yngeneuau dynion; A hono
 o achos balchio or bobloedd yn ei
 Hundebed a holldwyd yn yscyrion
 liwer, fel nad iw'r cymru chwaith
 inwy nag eraill yn deall moi
 gilydd, na nemor un yn deall ei
 holl eiriniu ei hun wrth ei gymydog
 llai o lawer beth y mae'r galon yn
 i chwedleua ddydd a nos. Ag wedi
 danfon y plant i yscolian llygredig
 i gasglu rhai o flodau'r ieithoedd,
 mae ei briallu hwynt yn gwywo

cyn y delont adret at Dduw, neu
a:tynt ci hunain. Erdarfod iddynt
ddisgu canu llawer cainge ar delyn
tafodau gwahanedig naturiaeth,
maent bellach bellach, yn lle bod
nes nes, i ganu i Dduw gerdd wrth
ei fodd, am nad iw fo yn chwen-
nyc h clywed un iaith mwy nai
gilydd, ond peraidd dafodiaith ei
ysbryd glan ei hun yn y galon
isel.

12. Nid oedd ond un grefydd ar
y cyntaf ymmonwes Adda, yn
Aberth Abel, ymmywyd Enoch,
yn Arch Noah, yn rheulu *Abraham*,
ag ymysg y rhai cadweddig, Ond
yr awron, ni a welwn, mai pan
godo'r mwg or pwll diwaelod,
llawer a goethant ar ei gilydd heb
fawr yn beio fwyaf ar ei gnawd ai
enaid ei hun Rhai yn dilyn y
Pâb ar budredd, eraill ffydd ei
brenin, beth bynnag fo hi: Rhai yn
cadw ei gwyliau, eraill yn dilyn ei
tadau (i bale bynnag yr aethont.)

Rhai

Rhai yn eistedd yn ilonydd ag yn
 pydru yng'harchar y twyllwch ar
 cyndynrwydd, llawer yn dilyn
 Mahom neu Mammon, ar rhan
 fwyaf yn myned ar ôl y twysfog
 garw Lucifer, ag yn dawnsio yn
 ddifyr yn chwantau'r cnawd ar ol
 ei bibell ef, Ag er hyny yn breudd-
 wydio y cânt syned yn vniōn ir
 nef, ag yn gweddio am awr dda,
 heb ymofyn am naturiaeth dda
 oddiwrth Dduw. Fel hyn y mae
 'r holl fydd yn i twyllo ei hunain,
 yn ymladd ai gilydd, yn tristhau
 y spryd Duw, ag yn peri ir cyth-
 reuliaid chwerthin with edrych ar
 ei hynfydrwydd. Ond ni phery
 hyn nemor o oriau, Canys mae 'r
 swyddog mawr, sef mab Dau,
 wrth y drws. A phan ddel i mewn,
 ag ymddangos yn y byd yma, fe
 orchymyn gasglu yr holl ddefaid
 ynghyd ar y naill law iddo, ar holl
 eisr ar y llaw arall. Ag yno y
 terfynir yr holl ymraniadau neill-
 duol

duol ag a i llyngcîr yn yr un didoliad yma. Tyred Arglwydd Jesu Tyred chwippyn. *Amen.*

13. Am yr hyn a ysgrifennwyd yma or blaen, se allai na ddeelli di ar y cyntaf mor meddwl, ond yr wyfi yn deisyf arnat ochelyd barnu heb ystyr, rhag cwympo o honot i fysg y *rhai sydd yn cablu yr byn ni wyddant*, ag *yn cysartb yr byn ni ddeallant*. Hyn sydd eglur, nad oes neb yn gadwedig ond drwy ffydd ynghrist, ag nad oes gan neb iawn ffydd, ond y rhai sydd yn bodloni Duw, ag nad oes neb yn i fodloni ef ond y rhai sydd debig iddo. Wedi i hail-wneuthur ar ôl llun a delw Duw ei hunan. Os wyt i debig i Ghrist, cadwedig wyr. Os wyt i anhebig idde, yr wyt i mewn cyflwr colledig. Gwir grefydd iw bod yn debig i Dduw ynghrist. Nid â neb i mewn ir nefoedd (o ba opiniwn bynnag i bônt)

bôat) ond y rhai sydd ar ddelw Duw yn y byd. Ag ni fwrir neb i vffern, ond y rhai sydd anhebig ir Arglwydd. Cyflawnder iw Duw. A wyt tithau yn gyflawn vinhob peth, ag yn vniawn yn dy ffyrdd? neu ai byw yn ffals yr wyt i mewn rhagriith a chamwedd, yn attal oddiwrth Dduw a dyn ei heiddo. Purdeb iw Duw, A wyt tithau yn sanctaidd ag yn ddigymysg dy feddwl? Doethineb iw'r Arglwydd a Goleuni. Ai doeth a gwybodus wyt tithau yn dy holl ymwareddiad. Yna yr wyt ti yn ddelw i Dduw, ag di geif fod gidael ef. Cariad iw Tad yr Arglwydd Jesu, Ai cariadus a hyfryd ahawddgar wyt tithau? Mae fo yn dioddef, ag yn cydddwyn, ag yn talud am ddrwg i bawb. Ond wyt i tithau felly, nid wyt i blentyn iddo. Ysbryd addfwyn llonydd iw ei ysbryd ef. Ond a flonydd ag anfodlon iw plant y cythrael. Mae Christ

Christ yn ddiwyd ag yn fywiog, yn ddibaid yn gweithio ag yn rhoi, pob daioni ymhob man heb na huno na heppian. Ai wrth wyt i ag esceulus i hcb gweithred dda? yna vno blant y byd hwn wyt i, ag nid o Dduw. felly Wrth hyn, Edrych ar ba ddelw yr wyt i ag di gei weled wrth hyny i ba le yr wyt ti yn myned byth. Canys yr eneidiau sydd debig i Dduw ymhob man a gedwir, ar lleill oll a gollir, o ba grefydd bynag y bont.

I 4. Gwir iw fod rhyfel ynot ti rhwng dwy naturiaeth, neu rhwng dy bechod ath gydwybod. Ond edrych pa vn or ddau iw dy Ar glwydd, pa vn sydd ben ynot ti, Ai dy lygredigaeth ai yr wybodaeth o Dduw. I ba vn bynag yr wyt i yn vfyddhau, i hwnw yr wyt i yn was, ag yn ôl dy waith y bydd dy wobr. Os yn dy ewyllys dy hun y byddifyw, achubed dy ewyllys di wrth farw. Ond os gwadu

a wnei di dy ewyllys dy hun a rhodio yn ewyllys Duw yn erbyn dy naturiaeth dy hun, yna ewyllys Duw ath gymer allan or corph i aros gida Duw ei hunan, Ewyllys yr Hunan iw'r gadwyn gryfaf sydd gan ddiabol o amgylch yr enaid. Ceisied yn nerth croes Christ dorri honno yn gyntaf, a dysgu bebcora chroes i ei ewyllys ei hunan, ag fe gaiff gyngor ymhellach oddiwrth Dduw. Ond dan hyny os rhoir gair arall iddo mae fo yn i dderbyn neu yn i ddarllen yn ei ewyllys ei hun, ag yn gwyro yr hyn a ysgrifennwyd iw ddinistr ei hun. Ond yr Arglwydd an catwo ni rhag tramgwyddo wrth y mân tramgwydd. *Amen.*

TERFTN.